# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Medi 2020 – Cyfrol 5 – Rhifyn 12

## Sioe flodau a chynnyrch ddigidol

Roedd Gŵyl Banc mis Awst eleni yn wahanol iawn i'r arfer, heb y prysurdeb mawr arferol o gwmpas neuadd y pentre. Mae'r digwyddiad blynyddol yn gyfle gwych i bentrefwyr Llandyrnog a'r cyffiniau ddod at ei gilydd i gymdeithasu, yn ogystal ag i edmygu'r cynnyrch a'r crefftau sydd wedi'u harddangos.

Fodd bynnag, mae ateb rhagorol wedi bod i'r apêl am luniau o gynnyrch gardd. Mae hwn yn rhifyn lliwgar iawn o'r *Llais*, sydd hefyd wedi'i argraffu am y tro cyntaf ers mis Mawrth. Mae'r lluniau wedi'u rhoi yma ac acw yn yr ochr Gymraeg a'r ochr Saesneg, felly edrychwch ar y ddwy fersiwn i weld y lluniau i gyd.



*Moronen a gafodd ei geni, nid ei chodi o'r pridd?*



*Cadeirydd y sioe a'r arbenigwr lleol ar dyfu blodau a llysiau, John Rowlands, yn dangos rhyfeddodau garddio i'r genhedlaeth nesa.*



*Llysiau hyfryd Ann Rowley-Williams*

**Diolch o galon i bawb sydd wedi anfon eu lluniau**

# Haul ar y fodrwy

**Priodas Ddeimwnt*:*** Priodwyd Gwyn a Valerie Hughes yn Eglwys y Santes Fair, Dinbych 27fed Awst 1960, ac yna bu'r wledd briodas yng Ngwesty'r Crown. Maen nhw wedi byw yn Llandyrnog trwy gydol eu bywyd priodasol. Ymddeolodd Gwyn 'Dŵr' o'r Bwrdd Dŵr sawl bwyddyn yn ôl a Valerie o'r Inffyrmari.

Dymunwn ddathliad penblwydd priodas hapus iawn a gobeithio y cewch chi ddiwrnod i'w gofio. Cariad mawr oddi wrth y teulu i gyd.



**Aelodau'r Pwyllgor:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler, Jack Crowther, Bryn Davies (tanysgrifiadau a hysbysebion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cyfieithwyr), Anne Rowley -Williams, Rhian Jones, Margaret a Rod Williams, Sian Gwyn-Ifan (cyfieithydd).
***Anfonwch eich newyddion a'ch erthyglau at llandyrnognews@gmail.com***

**Priodas Aur:**
Llongyfarchiadau mawr i Dad a Mam (Aeron a Menna Ellis, Gader Goch) sydd yn dathlu Pen-blwydd Priodas Aur ar y 19fed o fis Medi. Ymlaen i'r diemwnt rwan! Cariad Mawr gan Alun, Rhys, Iola a'r teulu oll xxx



Llongyfarchiadau hefyd i John Hugh a Veronica Roberts a briododd ar union yr un dyddiad.



# Pytiau newyddion y pentre

**Profedigaethau**: Bu farw Bryn Bellis, Erw Frân ar ôl gwaeledd hir. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Carol a'r teulu. Cydymdeimlwn hefyd â Sylvia a theulu'r diweddar Bill Evans, Fforddlas, ac â David a Margaret Jones, Hafan Dawel. Bu farw chwaer David, Eira Reece Jones.

**Brysiwch wella:** dyna yw'n dymuniad i Les Ward ar ôl ei arhosiad yn Ysbyty Glan Clwyd.

Agorodd y **Kinmel Arms** ei drysau ddydd Mercher, 5 Awst. Mae ychydig o reolau a chanllawiau ar waith wrth ymweld â'r dafarn ond y gobaith yw y bydd pawb yn cadw atyn nhw a bod yn ddiogel. Oriau agor:
Dydd Llun–Dydd Iau 3pm–10pm
Dydd Gwener 3pm–11pm
Dydd Sadwrn 1pm–11pm
Dydd Sul 1pm–8pm

**Da iawn,** Elen McCoole: Mae hi wedi codi £287 i Dŷ Gobaith drwy seiclo 100 milltir yn ystod mis Awst a gwerthu cacennau. Codwyd £112 o'r swm hwn yn y pentref. Mae Elen a'i theulu yn diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu.

**Llongyfarchiadau** i Paige Tynan ar raddio o Brifysgol Glyndŵr, Wrecsam gyda gradd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn gwyddoniaeth fforensig. Mae hi hefyd ar restr gwobrau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg) Cymru yn y categori 'Myfyriwr mwyaf addawol y flwyddyn'. Bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd.

**Ar werth:** Os oes £2.5 miliwn gennych yn sbâr, beth am brynu safle Arla yn y pentre? Ewch i www.nabarromcallister.co.uk/dt_properties/arla-llandyrnog/ am ragor o fanylion.

**Oriau agor Swyddfa'r Post**
**Dyddiau Llun Mawrth, Iau, Gwener**
**9am–12pm, 3pm–5pm**
**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**
**01824 790310**







*Margaret Williams*













*John Rowlands*

## Cais am gefnogaeth



Y llynedd, bu farw ffrind gorau Joe Hinchcliffe, Olivia Alkir, o ganlyniad i yrru peryglus. Mae Joe yn gofyn i chi ei helpu i sicrhau na fydd damwain debyg yn digwydd byth eto. Mae wedi creu deiseb ar wefan y llywodraeth i fynnu newid yn y drefn bresennol, sef y dylai blwch du fod yng ngherbyd pawb sydd newydd basio'u prawf gyrru ac nad ydynt yn cael cludo mwy nag un teithiwr yn y car. Rhaid i hwnnw neu honno fod yn yrrwr cyfrifol. Dylai'r newidiadau hyn leihau'n sylweddol nifer y bobl ifanc sy'n marw mewn damweiniau car drwy eu hannog i yrru'n fwy diogel. Arwyddwch y ddeiseb sydd yn y cyswllt: petition.parliament.uk/petitions/333041

## Y Golden Lion yn ailagor

Rwy'n siŵr eich bod chi i gyd yn ymwybodol bod y Golden Lion wedi cau ers 6 Ionawr. Penderfynais ei gwerthu gan obeithio y byddai rhywun yn ei phrynu i barhau â'r traddodiad o'r dafarn yn rhan ganolog o'r pentre. Fe ges i gynnig gan bobl leol, ond oherwydd y coronafeirws, doedd hi ddim yn bosib cwblhau'r gwerthu.

Mae'n dda gen i ddweud fy mod i a Mark Roberts wedi cytuno i agor y Golden Lion cyn bo hir, er nad yw wedi'i gwerthu a does dim tenantiaeth ffurfiol yn bod. Fy nheimladau i oedd bod angen i'r Golden Lion fod ar agor fel canolfan i'r pentre, ac mae'r ddau ohonon ni'n mynd i roi cynnig arni a gweld sut aiff hi.

Rhaid datrys sawl peth o ran y cyfarwyddiadau iechyd a diogelwch oherwydd y feirws, ond rwy'n siŵr y byddwn yn gallu gwneud hyn gyda help ein cwsmeriaid. Fe gewch chi ragor o newyddion wrth i bethau ddatblygu.

*Merfyn Parry*

**Townsend Supplies**
**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**
**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- **Tanalised timber**
- **Concrete posts**
- **Panel fencing**
- **Water pipe fittings**
- **Water tanks**
- **Sand**
- **Cement**
- **Concrete blocks**

DBP
**Denbigh Building Plastics**

*SUPPLIERS & INSTALLERS*
*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*


Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**













*Ann Rowley-Williams*

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned, mis Gorffennaf

Roedd pawb yn bresennol yn y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf – nid ydym yn gallu cyfarfod yn y modd arferol ond mae'r cyfarfodydd ar Zoom yn mynd yn dda.

Mae **Cae Nant** wedi cau ers 23 Mawrth, ond fe gafodd ailagor 20 Gorffennaf. Mae Godfrey Group wedi glanhau'r holl offer yn llwyr ac mae arwyddion wedi'u codi i atgoffa'r sawl sy'n defnyddio'r parc i gadw at y pellter cymdeithasol.

**Yr Ystafelloedd Coco**: Oherwydd y cyfyngiadau presennol, does dim byd yn mynd i ddigwydd yn yr Ystafelloedd Coco am y tro. Penderfynwyd gwneud y gorau o'r amser i ailbeintio'r lle ac i osod carped newydd.

Mae'r Ystafelloedd Coco yn elusen gofrestredig. Yn rhinwedd eu swyddogaeth fel ymddiriedolwyr yr Ystafelloedd Coco, gwnaeth y Cyngor Cymuned, gais am £10,000 gan gronfa iawndal Covid Sir Ddinbych, a bu'n llwyddiannus.

**Cynllunio**: Daeth cais i law i osod dau gaban glampio ar dir ger Bryn Celyn, Llangwyfan ac nid oedd gan y Cyngor unrhyw bryderon am y cais. Roedd yr aelodau'n ymwybodol bod y safle o fewn yr AHNE, ond roedden nhw'n hyderus y byddai'r adran gynllunio yn rhoi cyngor ar ddefnyddio sgriniau, ac ati, i leihau unrhyw effaith bosib ar yr ardal.

**Safle Arla**: Mynegwyd pryderon am gyflwr y safle a phenderfynwyd cysylltu ag Arla. Roedd y cwmni wedi addo gofalu am y safle i sicrhau ei fod mewn cyflwr da. Erbyn hyn, mae'r gwaith wedi'i wneud.

**Llwybr troed 36**: mae'r llwybr hwn o Benisa'r Waen i Dŷ Gwyn wedi'i glirio, ar ôl i'r cyngor wneud cais i Gyngor Sir Ddinbych.

**Sbwriel**: Mynegwyd pryder bod cyfarpar PPE yn cael eu gwaredu'n anghyfrifol, ond fe fydd hi'n anodd cael hyd i'r rheini sy'n gyfrifol am y sbwriel. Bydd ymholiadau cynnil yn cael eu gwneud cyn y cyfarfod nesaf.

**Gardd pilipalod/blodau gwyllt**: Mae'r Cyngor wedi llwyddo yn ei gais am ddeunyddiau i wneud gardd pilipalod/blodau gwyllt a bydd yn cyrraedd ymhen ychydig. Penderfynwyd trafod y lleoliad yng Nghae Nant gyda Mr David Weyman.

**Mainc**: Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cais i Gyngor Sir Ddinbych i osod mainc ar groesffordd Celynog. Er bod y Cyngor wedi talu'r £185 i wneud y cais ac wedi cyflwyno mapiau o'r safle, nid yw wedi cael ateb. Fe allai hyn fod oherwydd y cyfnod clo, fodd bynnag, bydd y Cyngor yn dal ati i gael ymateb.

**Halen ar gyfer y ffyrdd**: Mae'r Cyngor Sir yn ystyried gosod biniau halen mewn mannau penodol yn lle gadael tomenni halen. Ond mae wedi sicrhau'r cyngor cymuned y bydd yn cynnal ymgynghoriad cyn mynd yn ei flaen i wneud hyn. Y teimlad oedd y byddai angen nifer o finiau llai ar y ffyrdd cul, serth o gwmpas Llangwyfan/Pont Llundain/Glyn Arthur, yn hytrach nag un bin mawr ar waelod y gelltydd hyn. Mae'r rhain yn hynod o beryglus yn y gaeaf ac mae'r trigolion yn tueddu i roi halen ar y ffyrdd eu hunain.

Llwybr troed 29: Cafwyd adroddiad bod y gamfa ger Pentrefelin, ar lwybr troed 29, mewn cyflwr peryglus. Mae'r Swyddog Llwybrau Troed wedi trafod y mater eisoes gyda'r tirberchennog a'r gobaith ydy y bydd y mater wedi'i ddatrys yn fuan.

Cyfraniadau: Dyma'r cyfarfod cyntaf ers dechrau'r cyfnod clo ac felly roedd angen trafod ceisiadau am gymorth ariannol. Penderfynwyd cyfrannu'r symiau canlynol:

| | |
|---|---|
| Gofal Dydd Capel y Waen | £150 |
| Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan | £150 |
| Tuesday Club | £100 |
| Cronfa Cynnal a Chadw'r Fynwent | £200 |

**James Davies, A.S. Dyffryn Clwyd**

james.davies.mp@parliament.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920
Swyddfa Westminster: 0207 2194606

# Clwb Pêl-droed Llandyrnog a'r tymor newydd

Byddwn yn cystadlu yn haen 4 y tymor hwn – sefyllfa Newydd a hynod gystadleuol. Mae'r tîm rheoli, Jimmy McNally (Rheolwr), Steve Crompton (Rheolwr Cynorthwyol), Tudur Morris (Hyfforddwr y Tîm 1af) yn edrych ymlaen at eich croesawu chi i Gae Nant.

Mae'r clwb yn falch o gyhoeddi mai Crompton Farriers fydd yn noddi'r cit am y tymor – diolch iddyn nhw.

Croeso i'r chwaraewyr canlynol i'r clwb:

**Sam Crompton**: amddiffynwr di-lol, sydd wedi chwarae i Ruthun, Amwythig a thîm wrth gefn y Bala.

**Dylan Jones**: cyn-golwr Corwen a Rhuthun. Mae ganddo brofiad helaeth o bêl-droed Cynghrair Cymru Alliance ac felly mae'n gaffaeliad aruthrol i'r clwb.

**Tom Sharples**: Mae Tom wedi cynrychioli'r clwb eisoes ac mae'n chwaraewr defnyddiol i'r tîm.

**Kev Evans**: O glwb Rhuthun. Mae Kev yn bendant yn cryfhau ein sgwad. Bu'n chwarae i'r clwb o'r blaen yng nghyfnod John James.

**Garmon Hafal:** Mae gan Garmon hefyd brofiad helaeth o bêl-droed Cynghrair Cymru Alliance ac mae wedi chwarae i Landyrnog o'r blaen.

**Adam Harvey**: O glwb Rhuthun. Mae Adam yn gefnwr chwith gyda phrofiad o chwarae yn y Cymru Alliance a bydd yn aelod cryf o'r sgwad.

**Elystan Hughes**: Amddiffynwr di-lol arall. Mae Stan hefyd yn brofiadol iawn a gallai hyn fod yn dyngedfennol ar gyfer y tymor sydd i ddod.

**Jak Newell:** Diolch o galon i Glwb Pêl-droed Rhuthun am eu help gyda'r trosglwyddiad.

**Sean James:** Mae Sean wedi chwarae i'r clwb o'r blaen a bydd yn ychwanegiad gwych i'r sgwad.

**David Lawson Cooke:** Chwaraewr talentog arall. Edrychwn ymlaen at ei weld yn dangos ei sgiliau yng Nghae Nant.

**Derry Morris:** 'Un tro bach arall'. Mae Derry Morris wedi cyhoeddi bod ganddo un tymor arall i'w roi i Landyrnog. Yn 53 oed, mae'r chwaraewr bytholwyrdd wedi ymroi i ymgyrch arall ar gyfer y clwb.

**Cai Davies:** Mae'n bleser cyhoeddi bod Cai yn dychwelyd i'r clwb o Dîm Pêl-droed Rhuthun. Dechreuodd Cai chwarae pêl-droed ar lefel hŷn yma yng Nghae Nant yng nghyfnod Jimmy fel rheolwr y tîm wrth gefn. Ychwanegiad gwerthfawr arall i'r clwb.

Ar hyn o bryd mae'r tîm yn chwilio am ffisiotherapydd i'r tîm 1af. Cysylltwch â'r clwb drwy neges i'r cyfrif Twitter: @LlandyrnogFC neu drwy ei dudalen Facebook, Llandyrnog United FC.


## Blue Hand Mowers

**Repair and servicing of all garden machinery:**

**Lawn mowers and lawn tractors**

**Chain saws**

**Hedge cutters**

**Strimmers**

**Disc cutters**

**Quad bikes**

**Leaf blowers**

**Hand tools**

**Collection and delivery service available**

**Situated on 'Blue Hand Corner' or find us on Google**

**www.bluehandmowers.co.uk**

**enquiries@bluehandmowers.co.uk**

**☎ 0775 20 35 462**










*Richard, Iona a Hywel Davies*





# Dod i adnabod ... Russ Jones



***Be ydi dy atgofion cynharaf?***
Gan fy mod wedi byw yn Llandyrnog trwy gydol fy mywyd, mae fy holl atgofion yn ymwneud â'r pentre. F'atgofion cynharaf ydi mynd am dro gyda fy mrodyr, 'rownd Speddyd' efo fy nhaid (Frank Wilson). Roeddem ni'n arfer mynd heibio'r 'goeden fferins hudol'. Roedd 'na dwll mawr ym moncyff y goeden wrth ymyl un o giatiau'r cae. Roedden ni'n arfer edrych i mewn i'r twll, ond doedd dim byd yno. Byddai'n rhoi cnoc fach i ddeffro tylwyth teg 'fferins' ac, yn rhyfeddol, byddai fferins yn syrthio lawr i ni eu rhannu! Hyd y dydd heddiw, does dim syniad gen i sut oedd o'n gwneud hyn! Atgof arall sy'n dod i'r cof ydi cael fy anfon gan dad a mam i Ty'n Llan i nôl llefrith, a mynd gyda Mr neu Mrs Evans neu 'Anti' Maggie i'r rhewgell fawr am beint o lefrith. Roedd pob sioe a garddwest yn y pentre yn fythgofiadwy. Arferai fy Nain (Agnes Wilson) wneud gwisgoedd ffansi anhygoel i mi. Roedd hi mor amryddawn a gallai wneud bron unrhyw beth gyda nodwydd ac edau.

***Be am ysgol a choleg?***
Mi es i ysgol gynradd y pentre a gwneud ffrindiau da gyda phlant eraill Llandyrnog – cyfeillgarwch sy'n dal yn gryf hyd heddiw. Yna ymlaen i Ysgol Uwchradd Brynhyfryd a dilyn cwrs busnes a chyllid yng Ngholeg Llysfasi.

***Est ti ati'n syth i weithio?***
Pan oeddwn i'n dilyn cwrs busnes a chyllid, ac wedi cyrraedd 18 oed, cefais ychydig o waith staff banc yn *Highfield Park*. Dyma'r tro cynta i mi sylweddoli mai ym myd gofal oedd fy ngalwedigaeth ac nid busnes! Ar ddiwedd y cwrs, mi es i weithio'n llawn amser yn *Highfield Park*. Gweithiais yno am 8 mlynedd, gan ennill cymwysterau mewn gofal a dod yn weithiwr cymorth uwch. Tra roeddwn i'n gweithio yno y cwrddais i â Lowri, fy ngwraig, erbyn hyn. Pan oedd pethau'n mynd yn fwy difrifol, penderfynais ddatblygu fy addysg ymhellach. Roedd fy nghais i Brifysgol Bangor yn llwyddiannus a dilynais fy mam, Marjorie Jones, Ewythr Pete ac Anti Wyn a dilyn gyrfa mewn nyrsio, gan arbenigo mewn Iechyd Meddwl. Ar ôl cwblhau fy hyfforddiant, bûm yn ffodus i gael swydd fel nyrs staff band 5 yn Uned Ablett. Roedd hwn yn sylfaen gwerthfawr i nyrs oedd newydd raddio a dysgu oddi wrth nyrsys profiadol. Ar ôl 5 mlynedd ymunais â thîm triniaeth yn y cartref. Lleolir y tîm yn Uned Ablett, a'i rôl ydi trin cleifion sy â salwch acíwt, yn y cartref yn hytrach nag mewn ysbyty. Gweithiais yno am 5 mlynedd cyn penderfynu newid cyfeiriad rywfaint, ac ymuno â thîm Iechyd Meddwl Cymunedol (*TIMC*) yn y Rhyl fel cydlynydd cleifion gyda salwch iechyd meddwl difrifol. Yma, roeddwn i'n rhoi cefnogaeth i'r claf, cynnal ei sefydlogrwydd a'i adferiad yn y gymuned a rheoli argyfwng. Llynedd ymddeolodd y rheolwr tîm, ac awgrymodd y dylwn i ymgeisio am y swydd a bûm yn llwyddiannus yn y cyfweliad. Rydw i wedi bod yn rheolwr ers dros flwyddyn erbyn hyn, sy wrth gwrs yn hollol wahanol eto ac yn dod â heriau gwahanol, ond yn rhoi boddhad i mi.

***Ychydig flynyddoedd yn ôl, enillodd dy dîm di wobr am y gwaith. Beth oedd y wobr a sut wnaethoch chi gyflawni hyn?***
2 flynedd yn ôl cawsom ni Achrediad Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol (*AGIMC*) gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion. I gael

# Dod i adnabod ... Russ Jones

hwn, roedd yn rhaid i ni gyflwyno tystiolaeth a phrofi ein bod yn gweithio o fewn y safonau uchel osodwyd gan y Coleg Brenhinol. Cawsom ein hasesu gan adolygwyr oedd yn yr un gwaith â ni. Adeg hynny, ni oedd y cyntaf yng Nghymru i ennill yr achrediad hwn, a dim ond un ymysg ychydig yn y DU. Fel rhan o hyn, mi es i Lundain a chael fy hyfforddi i fod yn adolygwr cyd-weithwyr fy hun, ac rydw i wedi cymryd rhan mewn sawl adolygiad AGIMC ar draws y wlad ers hynny.

***Sut wnaeth Covid-19 effeithio ar bopeth?***
Mae Covid wedi bod yn her anferthol yn enwedig ym misoedd cynta'r cyfnod clo. Roedd y cyfarwyddyd a'r dull gweithredu yn newid yn rheolaidd. I gychwyn, mi wnaethom ni sgwrsio â chleifion dros y ffôn lle'r oedd hynny'n bosib. Roedd cyswllt wyneb yn wyneb yn unig pan oedd hynny'n hollol angenrheidiol, e.e. mewn creisis. Gorfu i ni addasu ein clinigau lle'r oedd cleifion yn dod am feddyginiaethau ayb, i sicrhau fod y nifer lleiaf o gleifion yn TIMC. Roedd hyn yn ogystal â sicrhau bod Cyfarpar Diogelu Personol ar gael.

***Be ydi dy ddiddordebau di y tu allan i oriau gwaith?***
Rydw i'n treulio'r rhan fwyaf o'r amser gyda fy nheulu annwyl. Roeddwn i'n trefnu (cyn Covid) grŵp pêl droed 6 bob ochr yn wythnosol ar y cae pob tywydd i'r '*fatty a'r unfitties*'. Yn ystod y cyfnod clo, rydw i wedi mwynhau cerdded a seiclo. Mae gen i a'r plant hefyd docyn tymor gyda Chlwb Pêl–droed Wrecsam; rydw i'n mwynhau miwsig a mynychu *gigs*, sinemâu a theatrau.

***Be sy'n dy wneud di'n flin?***
Ar hyn o bryd y diffyg tosturi sy i'w weld ar y cyfryngau cymdeithasol tuag at ffoaduriaid sy'n ceisio gwella eu hunain drwy ffoi o ryfeloedd a'r sefyllfa affwysol, ofnadwy sy'n eu gwledydd. Rydw i'n siŵr y byddai pawb yn gwneud yr un peth i'w teuluoedd pe bai nhw yn yr un sefyllfa. Tlodi a'r gwahaniaeth cyfoeth rhwng y cyfoethog a'r tlawd. Mae peidio rhoi arwydd ar gylchfannau yn fy ngyrru'n wallgo hefyd!

***Pwy hoffet ti ei wahodd i swper?***
Pobl sy'n fyw: Liam Gallagher, Diego Maradona, Julie Walters (byddai Lowri yn fy lladd i heb wahodd hon!), Tom Hanks, Harrison Ford, Bob Mortimer, Carrie Fisher, Billy Bragg, David Lammy a Derek y Dyn Tywydd. Eraill sy bellach wedi ein gadael: aelodau o'r teulu a ffrindiau wrth reswm, *The Boss* – Nye Bevan, Tony Benn, John Lennon, Elvis, Mohamed Ali ac Aretha Franklin. A gwahodd Bryn y Cogydd i goginio

***Be ydi dy obeithion di am y dyfodol?***
Dim ond para i wneud fy ngorau glas dros y teulu ac yn fy ngwaith, a'n bod ni i gyd fel teulu a ffrindiau'n cael iechyd a hapusrwydd. O, a dyrchafiad i Wrecsam hefyd!!

*Diolch yn fawr, Russ*!


**City Travel & Tours**

Local ABTA & ATOL Bonded Independent Travel Agent



Cruises, coach tours, family holidays, skiing trips, concert events, UK breaks – you name it, we can book it for you.

Karin, Lesley & Jackie have a combined 90 years of travel experience, so call us for friendly travel advice.

**We are based at Tweedmill, St Asaph**
**Tel: 01745 730321**
**Email: citytravel@tarsc.net**








*Roger Warner – a gafodd bla o lindys hefyd!*




# Noson ar yr Orient Express: Rhan 2




*Fel hyn y dechreuodd y daith, ar y British Pullman*

*Diwedd Rhan 1 oedd stori Gwen am ei phryd godidog fin nos ar yr Orient Express i ddathlu ei phen blwydd.*

Ar ôl y swper moethus, ymlaen â ni i'r lolfa goctel. Roedd hi mor ymlaciol yno, efo piano cyngerdd (sut ar y ddaear gawson nhw hwn i mewn i'r trên?!) yn chwarae yn y cefndir a'r teithwyr i gyd yn eu dillad crandiaf. Ffrog fach ddu oedd gen i – ond roedd y lleill wedi gwisgo'n ffansi go iawn gyda'u secwins, a'u plu a'u penwisgoedd o'r dauddegau! Eistedd yno efo gwydraid o win, a mwynhau gwylio pobl cyn noswylio.

Tra'r oedden ni'n cael swper roedd Enrico wedi bod yn brysur iawn, a'r cabin wedi ei drawsnewid. Yn lle'r fainc, roedd 'na set o welyau bync ag ysgol wedi ei gorchuddio â defnydd yr un fath. Beth bynnag, roedd newid i byjamas yn dasg fwy anodd byth gan fod y trên yn symud a'r ysgol o'r ffordd! Roedd rhaid i Ivan esgyn i'r bync ucha' cyn i mi fedru newid fy nillad. Wedyn, lawr ag o, a chymryd ei dro i folchi yn y sinc fach yn y gornel. Roedd hamog fach gyfleus wrth ochr fy mync gwaelod i – lle i gadw fy mag llaw, feddylies i. Ond dim am hir – roedd o'n fy ngwneud i'n biwis wrth siglo nôl a 'mlaen uwch fy mhen!

Roedd y byncs yn gyfforddus ond roedd hi braidd yn anodd gorfod dal gafael wrth i'r trên fynd rownd corneli. Mi gysgais i'n iawn, a deffro pan oedd y trên yn ei unfan rhywle yn y Swistir. Ro'n ni'n gwybod fod Enrico'n dod â brecwast i ni am 8.30am, felly dyma godi a gwisgo cyn i'r trên ddechre symud! Am 8.20 dyma Enrico'n cnocio'r drws, a ninne'n sefyll yn y coridor tra'r oedd o'n rhoi'r cabin yn ôl fel cynt. Ro'n i'n meddwl fod o'n syniad clyfar bod gan yr ysgol ei le bach nesa at y wal a bod y byncs yn cau lawr i fod yn fainc eistedd unwaith eto. Roedd y dillad gwely yn cael ei gadw o dan y fainc a'r stôl yn dod o rywle arall.

Daeth Enrico â theisennau bach, ffrwythau, a choffi mewn pot arian i frecwast. Dywedodd y bydden ni'n mynd drwy Fwlch Arlberg ac Alpau'r Swistir reit fuan – dyna pam oedden nhw wedi aros am ddwy awr er mwyn i bawb ddeffro mewn pryd i fwynhau'r golygfeydd! Yn anffodus, doedd Ivan ddim yn teimlo'n rhy dda, ac yn diodde o salwch teithio. Llwyddodd i yfed chydig o goffi, ond tra'r oeddwn i'n trio tynnu lluniau o'r trên yn ymdroelli drwy'r mynyddoedd, aeth Ivan yn ôl i'r cabin i orwedd. Roedden ni wedi bwcio i gael cinio cynnar (gan ein bod ni'n gadael y trên yn Verona). Aethon ni am ddiod i'r lolfa goctel cyn mynd i fwyta, gan feddwl y base hynny'n setlo stumog Ivan. Ond gan na allai o wynebu'r bwyd, mynnodd fy mod i'n bwyta a fynte'n mynd yn ôl i'r cabin. Wrth i'r trên ymlwybro drwy Fwlch Brenner, ro'n i'n mwynhau eog mwg a *mousse* eog, chwaden â hanner eirinen wlanog wedi ei rhostio, a thatws stwnsh piws (edrych yn od, ond yn flasus!), yna jeli ffrwythau cymysg ar gacen gaws. Roedd y staff yn poeni am Ivan, a dyma nhw'n rhoi ychydig o'r siocled *petit fours* i mi i roi i Ivan – ond heb y llestri tsieina!

Wedi cyrraedd ffin yr Eidal, roedd rhaid i ni ddangos ein pasborts, ond mi roddodd hyn gyfle i ni fynd oddi ar y trên am sbel. Braf oedd

## Noson ar yr Orient Express: parhad

cael ychydig o awyr iach a chael golwg go iawn ar y trên. Roedd dipyn o ffordd i lawr o'r carej i'r platfform, ond roedd y stiward wrth law ac yn barod i gael tynnu ei lun wedyn!

Yna, 'nôl ar y trên am ran ola'r daith drwy'r Eidal – erbyn hyn roedd Ivan yn teimlo'n well o lawer. Daeth Enrico â the a chacen siocled i ni, a mentrodd Ivan ar y bwyd – a gorffen siocledi amser cinio hefyd! Ar ôl mynd heibio i Milan a Monza, dyma Enrico'n dod â'n cês mawr ni o gerbyd y gard a mynd â'n bagiau i gyd i'r coridor, yn barod i'w dadlwytho.

Ar ôl i'r *Orient Express* ein gollwng ni ar y platform yn Verona, mi arhoson ni i'w weld o'n mynd yn ei flaen yn osgeiddig am Fenis. Yn wir, roedd nifer o wylwyr wedi dod i'r orsaf i gael cipolwg ar y trên enwog a theimlem yn bwysig a balch ein bod ni wedi camu i lawr o drên oedd mor eiconig a phrydferth.

*Gwen Butler*



*Gwen a'i stiward hawddgar*

# Gardd pili-palod

Fis Mawrth eleni, dan nawdd Cadwch Gymru'n Daclus, lansiwyd cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur – menter newydd sbon sy'n anelu at greu, adfer a gwella cannoedd o gynefinoedd ledled y wlad. Bu cais Cyngor Cymuned Llandyrnog i greu gardd pili-palod yn llwyddiannus. Dros gyfnod o 6 wythnos cyrhaeddodd nifer fawr o focsys oedd yn cynnwys holl offer a deunyddiau angenrheid-iol i adeiladu gardd pili-palod – cymysgedd o hadau blodau gwyllt, planhigion plwg, llwyn a bylbiau, gwely uchel wedi'i wneud o blastig, uwchbridd a chompost heb fawn, dellt ac offer llaw – ynghyd â chanllawiau sut i greu a gofalu am ardd fach.

Rydyn ni'n hynod o ddiolchgar i David a Sherri am gymryd diddordeb mawr yn y prosiect. Un bore Sadwrn, aethon nhw ati gyda'r teulu a ffrindiau i adeiladu'r ardd wrth y gwrych yng Nghae Nant. Ymysg y planhigion mae bysedd Mair, llygaid y dydd gwyllt, hocysen fwsg, moron y meysydd, gwyddfid, banadl, draenen wen a chlust y gath. Yn rhyfeddol ddigon, wrth i Sherri orffen y plannu daeth pili-pala heibio fel tase fo'n dweud, wel, diolch yn fawr!

Mae'r gwesty pryfed a bocsys bwydo adar hefyd i'w gweld yng Nghae Nant, ac os dymunwch chi, gallwch fwydo'r adar a gweld pa fath o adar sy'n cael eu denu yno.



*Evie, Amie, David, Alison, Sherri a Shiloh wrthi'n plannu'r blodau gwyllt yng Nghae Nant – diolch, Criw Weyman!*









*Cal Venning*


**GLYN EVANS AUTOCLINIC**

**Canolfan Trwsio Ceir**

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR

**01745 815141**
**07808970364**

# Nodiadau o Blas Ashpool

Er bod mymryn o naws yr hydref i’w deimlo’r dyddie yma, mae hi’n dal i fod yn amser lliwgar yn yr ardd. Mae llifeiriant lliw y coed rhosod wedi’i ddisodli gan lifeiriant lliw mwy cynnil y coed seithliw. Ddeng mlynedd ar hugain o flynyddoedd yn ôl, doedd gen i ddim llawer i ddeud wrth y blodyn mawr seithliw. Ond erbyn hyn, rydw i wrth fy modd yn gweld y pennau mawr o wawr binc, gwyn, glas a gwyrdd. Rydw i wedi methu tyfu’r un glas tywyll sydd i’w weld yn amal wrth lan y môr, ond mae digon o wledd i’r llygad yma efo’r glas a’r porffor golau ym mhen yr ardd. Bonws arall ydi eu bod yn dda iawn am droi’n flodau sych ar gyfer trefniant blodau.

Yr adeg hon o’r flwyddyn, mae’r border blodau’n llawn o flodau ffarwel haf, lili’r Affrig, ac mae’r gwenyn a’r pili-palod yn eu helfen yng nghanol y gwerddonell, y bergamot a’r bywlys pinc. Mae’r ardd lysiau wedi ymlâdd erbyn hyn, ond mi gawsom ni beth wmbredd o lysiau a ffrwythau ohoni ac arddangosfa anhygoel o bys pêr, delias a gladiolis.

Dros yr wythnosau diwethaf, mae’r moch wedi bod yn tyfu’n gyflym ac wedi gwneud gwaith rhagorol ar droi’r pridd yn eu cae bach nhw. Mor rhagorol yn wir, ar ambell eiliad wan dwi wedi bod yn ystyried creu llain arall i dyfu llysiau yn eu  darn bach nhw o dir (ar ôl gwerthu’r moch, wrth gwrs). Fe fydd y pridd yn ffrwythlon iawn, yn bendant, heb unrhyw gwlwm y cythraul yn tyfu ynddo, gobeithio. Wrth gwrs, rhaid bod y cnafon wedi darllen fy meddwl, oherwydd ychydig ddyddiau’n ôl fe ddihangon nhw, gan dreulio sawl awr hapus yn eu man gwyn fan draw.

Heddiw, rwy’n ysgrifennu hwn o lith o stafell sydd newydd ei hailaddurno, ystafell ar lawr uchaf y tŷ. Mae’r lle wedi bod yn dywyll, yn flêr, yn llawn gwe pry cop a llanast cyffredinol, ers cyn cof. Heb sôn am y chwedl yn yr ardal bod ysbryd yno a bod staen gwaed ar y llawr, gwaed rhyw druan a gafodd ei lofruddio. Erbyn hyn, gyda chot o baent, carped newydd, ffenestri rydyn ni’n gallu eu hagor a HEB lanast, does dim mymryn o naws ysbryd yno ac mae’n teimlo’n braf iawn!

Cyn gynted ag y bydd y feirws yn caniatáu, ein bwriad yw cael sêl i gael gwared ar olion sawl oes o hel llanast.

Yr wythnos hon, cawsom groesawu’r ffrind cyntaf i aros efo ni ers mis Mawrth. Mae o’n byw mewn dinas, felly roedd o wrth ei fodd yn mwynhau harddwch y wlad, yn anadlu’r awyr iach (heb ei fasg), yn gorffwys heb sŵn parhaol traffig – ar wahân i sŵn ambell fuwch yn brefu am ei llo o bell. Y peth gorau, medde fo, oedd cael mynd i gysgu gan edrych ar y sêr uwchben. O’r stafell ‘newydd’ yma, gallwn ni glywed y bwncathod ifanc a chrawcian cartrefol y gigfran, ac edrych allan ar oleuadau cysurus y mast teledu’n tywynnu’n gyson ar ben Bryniau Clwyd. Galwodd ein ffrind ni’r mast yn ‘Oleufa Cariad’ – ffordd hyfryd o’i ddisgrifio. Gobeithio y down ni i gyd o hyd i’n ‘Goleufa Cariad’ a’i rannu ag eraill!

Tan y tro nesaf, mwynhewch y garddio.

*Fiona Bell*


J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK -
FARM TYRE SPECIALISTS
BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602

# Gair gan y Rheithor

Dywedodd rhywun yn ddiweddar, ‘Mae’n siŵr y bydd ein Diolchgarwch yn wahanol eleni’ Roeddwn i’n gwybod beth oedd yn ei feddwl – bydd y gwasanaeth Diolchgarwch yn edrych yn dra gwahanol yn y dyddiau hyn o bellter cymdeithasol Covid-19. Ond er na allwn gynnal ein cinio cynhaeaf, rhaid diolch am y ffaith bod cynhaeaf y tir a’r môr yn dal i ddigwydd yr un fath er gwaethaf y coronafeirws.

Efallai i lawer ohonom sylwi ar y newid yn y tymhorau yn fwy eglur eleni, gan nad oeddem yn cael crwydro’n bell oddi cartref. Trwy’r ffenest cawsom amser i wylio’r blodau ar y coed afalau’n troi’n gnwd o ffrwyth, a changhennau’r coed a oedd yn noeth ar ddechrau’r cyfnod clo bellach yn wyrdd. Cyn bo hir iawn bydd y dail yn newid eu lliw ac yn disgyn wrth inni fynd drwy’r hydref.

Mae digwyddiadau arferol yr haf wedi cael eu gohirio, a bydd yn rhaid i sioeau cynnyrch lleol a’r sioeau amaethyddol mawr a bach aros tan y flwyddyn nesaf. Mae llawer ohonom wedi cael mwy o amser nag arfer i arddio ac i drio syniadau newydd, ac yn y rhifyn hwn o’r Llais cewch weld lluniau o’r canlyniadau rhyfeddol, canlyniadau’r cyfle i wneud dim heblaw mwynhau gweithio yn yr ardd i gadw’n brysur yn ystod y cyfnod clo.

Ni welwyd stormydd tebyg i’r rhai a gafwyd ym mis Awst ers llawer blwyddyn, gyda mellt tebyg i’r hyn a welir mewn gwledydd poeth yn creu sioe i ryfeddu ati, yn enwedig ar ôl iddi nosi. Mae’r ffermwyr yn wynebu llawer o heriau oherwydd yr hinsawdd y dyddiau hyn; er nad o ran y tywydd yn unig. Mae traddodiadau’r gorffennol yn dal gyda ni, ond mae angen chwilio am ffyrdd newydd i gefnogi a chynnal y diwydiant ffermio yn y dyfodol.

Adeg y cynhaeaf, mae’r Ŵyl Ddiolchgarwch yn ein hatgoffa ein bod ni i gyd yn rhan o’r cread, p’un a ydym yn ffermwyr ai peidio, a bod dyletswydd arnom i ofalu am yr hyn y mae Duw wedi ei greu. Mae’r weithred o roi diolch i Dduw am y cynhaeaf yn parhau’r un fath, ac rydym yn ddiolchgar i’r rhai sy’n gweithio’n ddiflino i gynhyrchu ein bwyd.

Mae yna lawer o storïau’n ymwneud â gwasanaethau Diolchgarwch, ond dyma un o’m hoff storïau hynny: gofynnodd y Ficer i’r plant yng Ngŵyl Ddiolchgarwch y Teulu enwi rhai o’r pethau a oedd yn cael eu harddangos yn yr Eglwys. Moron, pys, tatws a bresych atebodd y plant. ‘Da iawn’ meddai’r Ficer, ‘a beth am un gair i’w ddefnyddio dros yr holl bethau ’ma…?’ a daeth yr ateb yn syth gan un plentyn bach: ‘Grefi’.

Pob bendith,

*Val Rowlands*

**Mae’r Eglwys yn Llandyrnog wedi ailagor ar gyfer cynnal gwasanaethau’r Sul am 11.15am. Mae mesurau diogelwch ar waith ac mae angen inni gadw at y rheol 2 fetr ac at uchafswm y nifer o bobl sy’n cael bod yn yr eglwys ar yr un pryd, sef 30. Mae’r Eglwys ar agor ar gyfer gweddïo personol bob dydd Mercher 2pm – 4pm, gan roi cyfle i eistedd yn dawel a mwynhau’r heddwch. Cewch chi ddewis pryd i gyrraedd a gadael o fewn y ddwy awr hynny. Mae Eglwys Llangwyfan yn parhau i fod ar gau am y tro.**


Simon Barke HANDYMAN •SOLUTIONS•

www.sbhandymansolutions.co.uk

**Large range of trades – fully insured**

Interior and exterior painting and decorating

Wall and floor tiling

Guttering installed, repaired or cleared

Fence and gate building, erecting and repairs

Roof repairs and insulation

… and so much more – just ask if it’s not listed here

**Please call or text**

**for a free no-obligation quote:**

**07979 431564 or 01824 790047**

**Or contact me via email or Facebook:**

**s.barke28@gmail.com**

**facebook.com/SBHandymanSolutions**

# Gwobrau pêl-droed

Llongyfarchiadau i Tomos Roberts am ennill am fod y chwaraewr sydd wedi gwella fwya yn nhîm dan 14 Clwb Tref Rhuthun. Hefyd i'w frawd, Harri, a enillodd y wobr chwaraewr y chwaraewyr a Chwpan Arnold Edwards am wasanaeth clodwiw i'r sgwad am bum tymor llawn gyda'r tim ieuenctid.
Da iawn chi!

Oes gennych chi afalau yn tyfu na fyddwch chi'n eu defnyddio i gyd? Bydd prosiect SUDD AFAL yn casglu afalau sbâr o amgylch Dyffryn Clwyd a'u troi'n sudd afal i werthu, gyda'n golwg ar ariannu prosiectau cymunedol eraill. Cysylltwch â Heledd ar 07712 641447 am ragor o wybodaeth – a chofiwch amdanon ni mewn rhyw fis pan mae'r afalau'n dechrau aeddfedu!



*Menna Ellis*









*Ruth Griffith*

# Gair gan ein Cynghorydd Sir

Gobeithio fod pawb yn cadw cystal â medran nhw, yn feddyliol a chorfforol, wrth i ni filwrio mlaen drwy'r pandemig. Mae Awst fel tase fo'n hedfan heibio. Roedd 15ed Awst yn ddiwrnod cofio 75 mlynedd ers Diwrnod Budd-ugoliaeth yn Siapan, oedd yn nodi ildiad Siapan a diwedd yr Ail Ryfel Byd. Dioddefodd rhai bechgyn lleol amodau dychrynllyd fel carcharorion rhyfel yno – mae'n debyg y cewch chi ddarllen fwy o'r hanes yn llyfr nesa'r Gymdeithas Hanes, wrth iddyn nhw gasglu gwybodaeth dros y blynyddoedd nesa. Fel y gwyddoch nid ydi Hilary a minne wedi ailagor y Ceffyl Gwyn hyd yn hyn ac mae'r Golden Lion yn dal i fod ar gau. Teithiom ni i Ddolgellau, Bermo, Aberaeron a Phorthmadog yn ein *campervan* am ychydig o ddyddie. Ar ein taith roedden ni'n arsylwi ar sut oedd busnesau croeso yn ymdopi gydag ailagor a chydym-ffurfio â rheolau pellter 2 fetr. Roedd y mwyafrif y siaradon ni â nhw'n ei chael hi'n anodd lleihau'r nifer o seddi i drydedd rhan, ond ar yr un pryd yn gorfod cadw lefel y staffio er mwyn cydymffurfio – dyddiau anodd! Mae'r newyddion am ailagor y Golden Lion ar dudalen 5.

Mae'n braf gweld Cae Nant ar agor unwaith eto, a hyd y gwela i, mae pawb yn defnyddio'r cyfleusterau'n synhwyrol. Rhaid imi ddiolch i Weyman a'r criw a Sherri Davies am osod a phlannu'r ardd pili-palod a blodau gwyllt yng Nghae Nant. Dylai fod yn wledd i'r llygad y flwyddyn nesa a blynyddoedd i ddod, ac yn ein hatgoffa o'r cyfnod rhyfedd hwn rydyn ni'n byw ynddo, ac sy'n fodd i dynnu'r gymuned yn agosach at ei gilydd.

Mae'r Cyngor Sir yn bwriadu newid y modd y gosodir halen gaeaf ar ochr y ffordd eleni drwy osod bocsys halen lliw melyn mewn lleoliadau strategol ar ffyrdd sy'n arwain at Fryniau Clwyd.


Mae Cyngor Cymuned Llandyrnog wedi bod yn cynnal ei gyfarfodydd drwy *Zoom*, felly dwi'n siwr y bydd cofnodion i'w darllen yn fuan. Hoffwn i'n bersonol ddiolch i breswylwyr Llandyrnog a Llangwyfan am y gwaith cymunedol sy'n cael ei gyflawni heb feddwl ddwywaith, siopa a nôl meddyginiaethau i gymdogion, edrych ar ôl gwelyau blodau a chasglu sbwriel yn yr ardal – rydych chi'n gwybod pwy ydych chi, a'r tîm sy'n gofalu bod mynwent yr Eglwys yn edrych ar ei gorau mewn amseroedd anodd. Mae'n edrych yn bur debyg y bydd yr holl ysgolion yn ceisio cael yr holl ddisgyblion yn ôl i i addysg llawn amser ym mis Medi. Fel llywodraethwr ysgol, rwy'n gobeithio y bydd yn gweithio'n dda, fel rydw i'n siwr y bydd y disgyblion yn falch o fod yn ôl gyda'u ffrindiau.

Yn gymdeithasol, bydd colled fawr i'r pentre heb y Sioe Flodau a Chynnyrch eleni. Fodd bynnag, diolch i'r rheini sy wedi anfon lluniau prydferth o'u gerddi. Mae fy manylion cyswllt isod, fel arfer, a chofiwch gysylltu â mi am unrhyw faterion sy angen sylw. Gobeithio y gwnewch chi fwynhau rhan ola'r haf yma, a gobeithio y daw'r haul yn ôl unwaith eto.

*Merfyn Parry*

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



**Manylion cyswllt:**

**Ffôn symudol: 07836 208446**

**E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk**

**Neu gadewch neges ar Facebook**

**Rhifau Ffôn Defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan

Daeth yr Ail Ryfel Byd i ben 2 Medi 1945, wrth i Siapan arwyddo ei bod hi'n ildio'n ddiamod. Felly daeth 6 blynedd a diwrnod o frwydro i ben, gan bron pob gwlad yn y byd. Bu 300 miliwn o filwyr yn y frwydr, ac er bod amcangyfrifon yn amrywio'n helaeth, credir bod tua 75 miliwn o bobl wedi marw.

Bwriad Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan yw nodi 80 mlynedd ers diwedd y frwydr ofnadwy hon drwy gyhoeddi llyfr sy'n cofnodi profiadau teuluoedd pentrefwyr yn ystod cyfnod y rhyfel.

Detholiad o eiriau Thomas Henry Evans:

*Roedd 1940 i fod yn flwyddyn bwysig iawn a phrysur. Fe sefydlwyd y Sanatorium A.R.P. (Air Raid Precautions) squad ac roedd rhaid trenio ar gyfer cymhwyso i sefyll arholiad, gwybodaeth am gas a beth i'w wneud er nad chredai neb y bydd ei angen, eto roedd pawb wedi cael gas mask.*

*Yn 1940 y disgynnodd y bom gyntaf yn Nyffryn Clwyd, 500 o lathenni o Fron Yw yn y cae uwchben – tua 28 pwys wedi cael eu disgyn. Lladdwyd un ddafad, dwy wningen a malwyd un pren masarn a nifer o wydrau. Creodd hwn rhyw ofn ar bawb, y rhyfel wedi dod i Langwyfan.*

Mae Elspeth Brierley yn cofio bom tân yn mynd drwy do ei chartref yn Green Farm ac yn glanio ar y gwely. Roedd y teulu'n lwcus nad oedd neb yno ar y pryd. Roedd ei thad yn aelod o'r *Home Guard* a chafodd ei ddyrchafu'n lefftenant yn gyflym iawn. Pam? Fo oedd yr unig un â bachyn ar ei gerbyd i symud y gwn! Mae'r llun yn dangos Elspeth yn blentyn ar ei cheffyl gydag Otto, y carcharor rhyfel a oedd yn helpu ar ei fferm.


Mae gan Sue Vine bethau a gafodd gan ei modryb o Gilgwri. Roedd ei dyweddi, Robbie, yn beilot yn yr Awyrlu a chafodd yr awyren ei saethu. Lladdwyd Robbie.




Mae'r lluniau'n dangos y  Natalie ifanc a'r nodiadau rhamantus y bu hi a Robbie yn ysgrifennu at ei gilydd. Er iddi briodi'n ddiweddarach a chael priodas hapus iawn, anghofiodd hi byth mo Robbie.

A oes gennych chi storïau fel hyn yn eich teulu? Os felly, fe fydden ni wrth ein boddau'n clywed amdanyn nhw. I ddechrau, cysylltwch â llangwyfanhistory@hotmail.com i roi'ch enw a'ch rhif ffôn, neu rhowch y rhain mewn amlen, ei chyfeirio at y Gymdeithas Hanes, a gadewch hi yn siop y cigydd.





To my own darling
From a girl who loves him madly
Your Nat xxxxx xxxxx



To the most adorable and marvellous girl in the world. From a fellow who is madly in love with her. x